


Cyngor Bwrdeisdref Sirol Wrecsam

# Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam

# 2024-2029




wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam



“Yr unig beth mae’n wirioneddol rhaid i chi ei wybod yw lleoliad y llyfrgell.”

Albert Einstein

Credyd llun: Orren Jack Turner

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Cyd-destun | 5 |
| Pwysau ar y Gyllideb | 7 |
| Model Darparu | 7 |
| Ein Gweledigaeth | 8 |
| Ein Blaenoriaethau | 9 |
| Blaenoriaeth Un - Darllen | 9 |
| Blaenoriaeth Dau - Gwybodaeth a Digidol | 11 |
| Blaenoriaeth Tri - Iechyd a Lles | 13 |
| Blaenoriaeth Pedwar - Treftadaeth, Diwylliant a’r Gymraeg | 15 |
| Y dyfodol a sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud pethau’n iawn | 16 |

## Cyflwyniad

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn fannau diogel, am ddim ac agored i bawb, ac yn byrth i wybodaeth, gwybodaeth a chyfleoedd. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau lles cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Mae'r strategaeth yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, i sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion cymunedol, gan dargedu ein hadnoddau i hyrwyddo a diogelu lles pawb.

Mae pandemig COVID wedi dangos sawl anghydraddoldeb y mae'r strategaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â hwy. Rydym yn ymfalchïo yn ein Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac mae'r strategaeth hon yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth modern a chynaliadwy.




## Cyd-destun

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam yn wasanaeth statudol, a ariennir drwy Llywodraeth Leol. Pennir gwasanaethau ar lefel leol o fewn fframwaith statudol Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus 1964. Yn ôl y ddeddf, dyletswydd yr awdurdod lleol yw darparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithiol i bawb, hyrwyddo'r gwasanaeth hwn, a benthyca llyfrau a deunyddiau eraill am ddim.

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam yn cyfrannu at bolisïau a chynlluniau allweddol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys:

- Cynllun y Cyngor 2023-28
- Saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020 (dan adolygiad)





Oeddech chi'n gwybod bod gan 71% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam gerdyn llyfrgell?

Os ydych chi'n un o'r 29% sydd ddim, beth am ymweld â'ch llyfrgell leol heddiw a dod yn aelod? Bydd yn agor byd hollol newydd i chi!

Bydd angen i ni weld P.H. gyda'ch enw a'ch cyfeiriad arno.




Mae mwy na 30,000 wedi mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'i trefnu gan y llyfrgell




Mwy na 250,000 o fenthyciadau yn flynyddol

[Data 2022-2023]

## Pwysau ar y Gyllideb

Mae llyfrgelloedd ledled Y Deyrnas Unedig yn wynebu pwysau cynyddol ar y gyllideb. Nid yw sefyllfa Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam yn unigryw, ac mae disgwyl iddo fuddsoddi a chynyddu gwasanaethau digidol i gwsmeriaid a phreswylwyr, gan gynnal a moderneiddio'r cynnig llyfrgell craidd corfforol ac ar-lein.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut gall gwasanaethau ymateb i'r heriau parhaus rydym yn eu hwynebu, ac yn ceisio rhoi dewisiadau clir i Wasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam eu harchwilio, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy i ddiwallu anghenion preswylwyr heddiw, a'r dyfodol.

Rydym yn ystyried:

- Rhwymedigaethau statudol Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus (1964)
- Asesiad blynyddol drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun y Cyngor 2023-2028
- Adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus
- Pwysau parhaus, blynyddol ar y gyllideb
- Rôl cymunedau, gwirfoddolwyr, partneriaid a sefydliadau eraill wrth ddarparu gwasanaethau gyda gwerth ychwanegol

## Model Darparu

Dinas Wrecsam yw pedwaredd ardal ddinesig fwyaf Cymru, a Llyfrgell Wrecsam yw'r llyfrgell gyhoeddus fwyaf yng Ngogledd Cymru. Mae'r fwrdeistref sirol yn cynnwys naw cangen o'r llyfrgell, wedi'u lleoli ym Mrynteg, Cefn Mawr, y Waun, Coedpoeth, Gwersyllt, Llai, Owrtyn, Rhos a Rhiwabon.

Yn ystod y pandemig, fe sefydlon ni wasanaeth llyfrgell a oedd yn ddiogel o ran COVID o bob adeilad y llyfrgell. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Llyfrgell Cyswllt Cartref yn darparu gwasanaeth pwrpasol i bobl nad oes modd iddynt fynd i'w cangen leol yn bersonol oherwydd salwch, anabledd neu gyfrifoldeb gofalu. Mae Gwasanaeth Llyfrgell Dros Dro wedi cael ei sefydlu ar gyfer preswylwyr sydd methu mynd i'w llyfrgell leol oherwydd diffyg cludiant cyhoeddus.

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam yn darparu mynediad ar-lein i wybodaeth, e-lyfrau, llyfrau sain, cylchgronau, papurau newydd a llwyfannau ein cyfryngau cymdeithasol. Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam, mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol, yn darparu gwasanaethau i breswylwyr ar eu llyfrgelloedd lleol.

## Ein Gweledigaeth

Gwasanaeth dwyieithog sy'n:

- Darparu mynediad cyfartal i bawb
- Cynnig man diogel a chynhwysol
- Darparu cyfleoedd darllen, digidol, dysgu a diwylliannol
- Hyrwyddo iechyd a lles drwy fynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol, ac annog datblygiad personol a chyfranogiad cymunedol
- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi addysg, creadigrwydd a chyflogadwyedd



# Ein Blaenoriaethau

Mae set o bedair blaenoriaeth allweddol yn sail i'n strategaeth. Mae'r rhain wedi'u dylunio i sicrhau gwasanaeth llyfrgelloedd modern a chynaliadwy. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er enghraifft. iechyd, ieuenctid, addysg, diwylliant a'r trydydd sector. Ein nod yw sicrhau bod y gwasanaeth yn adlewyrchu ac yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid a'n cymunedau heddiw, ac yn y dyfodol.

## Blaenoriaeth Un - Darllen

Byddwn yn darparu adnoddau a gweithgareddau i adeiladu ar sgiliau llythrennedd ar bob lefel ac oedran, ac yn hyrwyddo cariad tuag at ddarllen o fewn llyfrgelloedd, sefydliadau cymunedol ac ar lwyfannau ar-lein.

Rydym yn gwybod y gall sgiliau llythrennedd gwael ddal rhywun yn ôl ar bob cam o'u bywyd, ac rydym eisiau ein gwasanaeth i gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion i ddatblygu sgiliau darllen ar gyfer yr ysgol, hamdden a gwaith.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos fod darllen am bleser yn gwella iechyd meddwl a lles i bawb. Mae plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n darllen yn iachach, yn hapusach ac yn fwy hyderus na'r sawl sydd ddim. Canfyddir bod darllen am bleser yn bwysig ar gyfer datblygiad plant.

**Amcanion:**

- Cynnig cyfle i bobl o bob oed i ddarllen a darganfod.
- Darparu adnoddau deniadol a gweithgareddau i hyrwyddo a dathlu darllen am bleser.
- Darparu stoc ddeniadol ac amrywiol o lyfrau, mewn ystod o ieithoedd a fformatau ar gyfer bob oed a gallu.

**A gyflawnir drwy:**

- Grwpiau darllen a darllen ar y cyd
- Sialens Ddarllen yr Haf
- Hyrwyddo llyfrau
- Digwyddiadau gydag awduron
- Gweithgareddau i blant
- Ymweliadau i golegau, ysgolion a grwpiau chwarae
- Addasu ein stoc i adlewyrchu ymholiadau gan gwsmeriaid, ceisiadau a thueddiadau
- Blychau llyfrau i gartrefi preswyl cartrefi gofal a sefydliadau eraill
- Cefnogaeth i grwpiau a theuluoedd bregus




> “Darllen er pleser yw’r peth unigol pwysicaf y gall plentyn ei wneud a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu dyfodol, hyd yn oed yn fwy felly na chefndir economaidd-gymdeithasol.”

Sefydliad Ymchwil Addysg UCL. Mae Darllen yn Gorbwyso Cefndir Economaidd ar gyfer Llwyddiant Disgybl; 2021

## Blaenoriaeth Dau - Gwybodaeth a Digidol


Rydym yn cefnogi addysg i ddatblygu sgiliau ac adnoddau digidol i sicrhau fod gan breswylwyr fynediad i wybodaeth a gwasanaethau ar-lein o safon.


**Amcanion:**

- Darparu ystod o weithgareddau sy'n hyrwyddo cynhwysiant digidol a chefnogi cwsmeriaid a phreswylwyr gyda'u sgiliau digidol.
- Darparu mynediad i adnoddau gwybodaeth a gwasanaethau ar-lein o safon

**A gyflawnir drwy:**

- Staff wedi'u hyfforddi'n briodol, sy'n wybodus ac yn barod i helpu
- Mynediad am ddim i Wi-Fi a chyfrifiaduron
- Ymateb i ymholiadau gan gwsmeriaid
- Adnoddau a gwasanaethau ar-lein
- Llungopïo ac argraffu
- Mynediad i wybodaeth gymunedol
- Sesiynau hyfforddiant a ddarperir gennym ni neu ein partneriaid
- Papurau newydd ac e-bapurau newydd lleol / e-gylchgronau





> Mae llyfrgell yng nghanol cymuned yn groes rhwng allanfa dân, rafft bywyd a gŵyl. Llyfrgelloedd yw cadeirlannau'r meddwl; ysbytai'r enaid; parciau thema'r dychymyg. Ar ynys oer a gwlyb, llyfrgelloedd yw'r unig loches gyhoeddus lle nad ydych yn ddefnyddiwr, ond yn hytrach yn ddinesydd.

Caitlin Moran, colofnydd ac awdur

*Credyd llun: Andrew Lih*

## Blaenoriaeth Tri - Iechyd a Lles

Mae 'Proven Power of Reading Studies', wedi dangos bod sawl sydd yn darllen am bleser efo lefel uwch o hunan-barch a'r gallu i ymdopi mewn sefyllfaoedd anodd. Mae darllen am bleser yn gysylledig a phatrymau cŵsg gwell.[1]

Rydym yn darparu mynediad i wybodaeth am iechyd y gellir ei hymddiried ynddi, adnoddau a chasgliadau am iechyd a lles.


**Amcanion:**

- Hyrwyddo mynediad i wybodaeth y gellir ei hymddiried ynddi ar ystod o faterion iechyd a chyflyrau meddygol, a gweithio gyda phartneriaid meddygol a'r trydydd sector i ddarparu cefnogaeth ar hunan reolaeth.
- Darparu ystod o gyfleoedd i ddarllen a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, sy'n ymgysylltu a chysylltu gyda chymunedau, er mwyn lleihau unigrwydd a gwella lles.

**A gyflawnir drwy:**

- Cwsmeriaid yn ymgysylltu â staff y llyfrgell
- Casgliadau Iechyd a Lles er enghraifft. Llyfrau ar Bresgripsiynau, Rhianta, Profedigaeth, Darllen yn Dda.
- Cofrestrwyd fel rhan o gynllun cenedlaethol 'Mannau Diogel' a 'Llyfrgelloedd Lloches.'
- Ymweliadau allgymorth i sefydliadau iechyd meddwl, a digwyddiadau iechyd a lles
- Gweithgareddau a drefnwyd gan y llyfrgell er enghraifft. amser stori, dysgu amser cinio, a chrefftau
- Mannau cyfarfod ar gyfer grwpiau cymunedol
- Grwpiau darllen a darllen ar y cyd
- Staff y llyfrgell sy'n ymwybodol o Awtistiaeth a Dementia
- Cyfeillgar i gŵn tywys

1. Billington, J, (2015) Darllen rhwng y Llinellau: Manteision Darllen er mwyn Pleser Stori Sydyn; Prifysgol Lerpwl



Credyd llun: Tim Sheerman-Chase

**“Llyfrgelloedd oedd rhaff achub fy mand. Mae’n rhaid i ni frwydro drostynt.”**

Nicky Wire
Manic Street Preachers

## Blaenoriaeth Pedwar - Treftadaeth, Diwylliant a'r Gymraeg

Rydym yn cefnogi profiadau artistig a chreadigol ar gyfer cymunedau ac yn ysbrydoli preswylwyr i gysylltu â threftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg.

**Amcanion:**

- Darparu cyfleoedd i breswylwyr ddysgu am eu treftadaeth a'r ardal leol.
- Annog twf grwpiau diwylliannol a digwyddiadau i wella defnydd gofod y llyfrgell ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a chreadigol.

**A gyflawnir drwy:**

- Darparu deunyddiau Cymraeg
- Gweithgareddau a digwyddiadau ar y thema treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg er enghraifft,. Carnifal Geiriau Wrecsam, Sesiynau Teuluol a Hanes Lleol
- Staff sy'n siarad Cymraeg



## Y dyfodol a sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud pethau'n iawn

Rydym yn cynnig gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion, cymunedau a sefydliadau eraill i wireddu amcanion ar y cyd a gwella darpariaeth y llyfrgell ar gyfer cwsmeriaid a phreswylwyr.

Byddwn yn archwilio:

- Ffyrdd newydd i ymgysylltu gyda chwsmeriaid, preswylwyr, budd-ddeiliaid a gwirfoddolwyr
- Cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau newydd yn ôl y galw ac wrth i gyfleoedd godi
- Parhau i archwilio dewisiadau ar gyfer rhannu lleoliadau ac adleoli gwasanaethau i adeiladau'r llyfrgell.
- Datblygu gwasanaethau ar gyfer cymunedau sy'n bell o adeiladau'r llyfrgell drwy ddefnydd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Estyn Allan.

Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn flynyddol yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i Adain Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD).

- Adborth gan gwsmeriaid.
- Adborth gan ddefnyddwyr y llyfrgell.

Rydym yn fwy na pharod i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain a braille.

Cysylltwch â llyfrgell leol neu

**E-bost:** library@wrexham.gov.uk

**Tel:** **01978 292090**

www.wrecsam.gov.uk/llyfrgelloedd